Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Friars

Ffordd Eithinog
Bangor
Gwynedd
LL57 2LN

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Friars

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Friars |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1383 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1124 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 259 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%) | 13.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 9.0%) | 11.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.4% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 29/01/2026 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/11/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Yn dilyn cyfnod hynod anodd, gwnaed newidiadau sylweddol mewn arweinyddiaeth a llywodraethu yn Ysgol Friars. Ers ei phenodi ym mis Ebrill 2025, mae'r pennaeth wedi canolbwyntio ar gryfhau systemau diogelu a bugeiliol, ailsefydlu prosesau sicrhau ansawdd a rhoi pwyslais cryf ar ailadeiladu ymddiriedaeth a meithrin diwylliant cynhwysol. Mae'r rhaglen dra ystyriol hon o newid yn sicrhau gwelliannau mewn addysgu ac yng ngallu arweinwyr canol i werthuso darpariaeth a dysgu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae arweinyddiaeth yn gynyddol gydlynol a chydweithredol. Mae staff a llywodraethwyr yn ymroddgar ac yn gefnogol i weledigaeth y pennaeth a'r newidiadau a roddwyd ar waith gan yr uwch dîm arwain.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth clir. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos agweddau parchus tuag at yr athro a disgyblion eraill ac yn ymroi yn addas i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf o ganlyniad i addysgu effeithiol iawn. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel ac maent yn herio disgyblion i feddwl yn ddwys i ddatblygu eu dealltwriaeth mewn cyd-destunau newydd a mwy cymhleth. Mewn lleiafrif o wersi, mae gwendidau mewn cynllunio yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau cynnydd cyson ac nid ydynt yn gweddu cyflymdra'r dysgu i anghenion disgyblion yn ddigon da. At ei gilydd, mae ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig yn amrywiol. Megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, yn cynnwys cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar. Mae'r tîm bugeiliol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion. Mae darpariaethau fel y Ganolfan Les, 'Hafan', 'Hwb Dysgu' a 'Harbwr', yn cynnig mannau anogol a chymorth teilwredig ac arbenigol ar gyfer anghenion emosiynol a dysgu disgyblion. Mae trefniadau diogelu yn briodol ac yn cael eu deall gan staff. Mae ffocws parhaus ar hyfforddiant ar gyfer arweinwyr, staff a llywodraethwyr ar ystod o faterion diogelu. Mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i alluogi disgyblion i fynegi eu barn ac ymgymryd â rolau arwain. Megis dechrau goruchwylio a monitro presenoldeb yn strategol y mae arweinwyr, ac ni sicrhawyd digon o welliant yn yr agwedd bwysig hon. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gostwng dros gyfnod ac maent yn parhau i fod islaw cyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a sut cydlynir dulliau i wella presenoldeb disgyblion

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod addysgu yn gyson yn herio disgyblion i wneud cynnydd cryf

A4 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer y Gymraeg, yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth clir a pherthnasoedd gwaith adeiladol â disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn setlo'n gyflym i wneud eu gwaith, yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion, ac yn dal ati i ganolbwyntio'n dda mewn gwersi. Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n bwrpasol o roi cyfle iddynt weithio mewn parau neu grwpiau bach, ac yn dangos balchder yn y ffordd maent yn cyflwyno eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi a thros gyfnod. Mae'r disgyblion hyn yn adalw eu dysgu blaenorol yn briodol, ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda i gyd-destunau newydd. Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, ac yn cynllunio tasgau sy'n adeiladu'n gynyddol ar ei gilydd. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod amgylcheddau dysgu pleserus a chefnogol yn cefnogi dysgu disgyblion. Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith effeithiol ac yn tynnu sylw disgyblion yn bwrpasol at eirfa allweddol, yn cynnwys terminoleg sy'n benodol i bwnc. Maent yn holi disgyblion yn addas ac yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth i gynorthwyo disgyblion â'u gwaith. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ar lafar i helpu disgyblion i wneud cynnydd.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o gryf. Yn y gwersi hyn mae athrawon:

- â disgwyliadau hynod uchel o ddisgyblion ac yn cynllunio gwersi yn greadigol i ennyn a symbylu chwilfrydedd ac annibyniaeth
- yn ysbrydoli disgyblion â'u hangerdd a'u brwdfrydedd am eu pynciau
- yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol yn fedrus i nodi a mynd i'r afael â chamsyniadau
- yn holi disgyblion yn fedrus i brocio a dyfnhau eu dealltwriaeth
- yn rhoi esboniadau hynod effeithiol gydag enghreifftiau a chyfatebiaethau

Mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion yng nghynllunio athrawon yn lleihau'r cynnydd a wna disgyblion. Yn yr achosion hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynllunio tasgau nad ydynt yn ddigon heriol neu nid ydynt yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol disgyblion. Nid ydynt yn addasu cyflymdra'r dysgu i weddu i anghenion disgyblion yn ddigon da. Maent yn gofyn cwestiynau sy'n rhy syml nad ydynt yn procio dealltwriaeth disgyblion, yn rhoi atebion i

ddisgyblion, neu'n defnyddio dulliau nad ydynt yn cynorthwyo disgyblion i ddyfnhau eu meddwl.

Mae ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig i wella gwaith disgyblion yn amrywio. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol sy'n nodi'n glir sut gall disgyblion wella ansawdd eu gwaith. Mewn enghreifftiau eraill, mae sylwadau'n rhy hael neu'n rhy gyffredinol, ac nid ydynt yn helpu disgyblion i symud ymlaen yn eu dysgu. Mewn gormod o achosion, nid yw disgyblion yn ymateb i sylwadau athrawon i wneud gwelliannau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu ei dull o farcio gwaith disgyblion am gywirdeb technegol, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith y newidiadau hyn.

### Medrau

Megis dechrau y mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi datblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi defnyddio gweithgareddau sicrhau ansawdd yn bwrpasol i gael dealltwriaeth gliriach o ba mor dda y mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mewn gwersi. O ganlyniad, mae arweinwyr yn dechrau canolbwyntio'n briodol ar gefnogi adrannau unigol i ddatblygu'r medrau sydd fwyaf perthnasol iddynt. Mae ymyriadau yn addas, yn gyffredinol, i gefnogi'r disgyblion hynny sydd â medrau gwannach.

### Llythrennedd

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu diwylliant cadarnhaol o ddarllen er pleser trwy ddigwyddiadau ysgol gyfan, amser dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol. Ar draws y cwricwlwm, caiff disgyblion gyfleoedd addas i ymarfer medrau darllen sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion yn adalw a dod o hyd i wybodaeth yn gywir mewn ystod o bynciau. Mae tua hanner ohonynt yn dadansoddi testunau llenyddol a ffeithiol yn addas, gan nodi technegau ac esbonio'u heffaith ar y darllenydd, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud sylwadau treiddgar. Mae'r disgyblion hyn yn casglu ystyr yn briodol o destunau gweledol ac ysgrifenedig, er mai ychydig ohonynt sy'n dangos medrau datblygedig wrth ddod i gasgliad. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu uwch fedrau darllen y tu hwnt i wersi Saesneg yn gyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb addas, a'r mwyafrif ohonynt yn trefnu eu syniadau'n rhesymegol gan ddefnyddio paragraffau a strwythurau brawddeg priodol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn hyderus ac yn gywir ar draws pynciau. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau strwythuredig effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau, gan gyfleu eu dadleuon yn glir ac yn effeithiol, er enghraifft wrth ystyried p'un a ddylai pawb roi i elusen mewn gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg. Maent yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o gynulleidfa a diben, gan gynllunio ymatebion estynedig a defnyddio geirfa uchelgeisiol â dawn a

soffistigeiddrwydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gwallau sillafu, atalnodi a gramadegol cyson, yn cynnwys ailadrodd camgymeriadau diofal. Maent yn cael trafferth trefnu eu hysgrifennu'n gydlynus ac yn dibynnu gormod ar sgaffaldiau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais addas ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a'u defnydd o eirfa sy'n benodol i bwnc. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadol i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i gwestiynau athrawon pan gânt eu sbarduno, er bod eu hatebion yn aml yn fyr. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa yn hynod effeithiol ac yn darparu ymatebion estynedig ystyriol a chydlynus ar lafar. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau'n oddefgar neu'n darparu ymatebion sy'n fyr a heb eu datblygu, gan gyfyngu ar ddyfnder mewn trafodaethau dosbarth cyfan a grŵp.

### Rhifedd

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhif sylfaenol cadarn. Maent yn cymhwyso pedair rheol rhif yn gywir, er enghraifft wrth weithio gyda ffracsiynau, canrannau a phan yn cyfrifo cyfartaleddau. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion eu cefnogi'n gyson i ddatblygu dealltwriaeth ddofn o gysyniadau mathemategol a rhifiadol. O ganlyniad, weithiau, maent yn cael anhawster galw dysgu blaenorol i gof, ac mae ychydig ohonynt yn cael trafferth â chyfrifiadau sylfaenol. Ar draws pynciau perthnasol, mae llawer o ddisgyblion yn trin data yn briodol, yn llunio graffiau, ac yn yr enghreifftiau gorau, yn llunio casgliadau cywir o ddata. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud gwallau wrth blotio graffiau neu lunio echelau addas.

Gall llawer o ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd ariannol yn briodol i gyfrifo ad-daliadau treth a morgais mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth dda o fedrau siâp, gofod a mesur. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o algebra yn briodol. Mae ychydig ohonynt â gafael cryf o gysyniadau mathemategol, yn cynnwys ffurfio a datrys hafaliadau cwadratig, aildrefnu fformiwlâu cymhleth ac olrhain rheolau yn gysylltiedig â theoremau cylch. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos eu gwaith yn briodol ac yn defnyddio hyn i gadarnhau lle maent wedi camddeall neu wedi gwneud camgymeriadau.

### Digidol

Mae arweinwyr yn cynorthwyo athrawon i ddefnyddio technoleg ddigidol i ymestyn dysgu disgyblion ac maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff. Rhoddir ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y celfyddydau mynegiannol, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd yn greadigol i wella a mireinio'u gwaith wrth ddylunio gemwaith. Mewn gwersi Saesneg, maent yn cymhwyso offer digidol yn briodol i gyflwyno'u gwaith yn

effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i gynhyrchu podlediadau a chreu hysbysebion. Mewn cyfrifiadureg, mae disgyblion mwy abl yn ymestyn eu medrau digidol datblygedig yn llwyddiannus.

## Cymraeg

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dilyn y llwybr Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau darllen, ac mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu â rhuglder, gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa a gramadeg sylfaenol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen. Maent yn anodi testunau'n llwyddiannus i adnabod nodweddion arddull fel idiomau, trosiadau a chyffelybiaethau, a sut maent yn effeithio ar y darllenydd. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio'r amser amodol, er enghraifft pan fyddant yn darparu cyngor ysgrifenedig ar sut gallai pobl fyw mewn ffordd sy'n fwy cyfrifol yn amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'r disgyblion hyn yn dibynnu'n ormodol ar yr athro i roi atebion a chyfieithu geiriau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dilyn y llwybr Cymraeg fel iaith gyntaf yn gwrando'n astud ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei glywed. Pan ofynnir iddynt, mae llawer o ddisgyblion iau yn cynnig ymatebion cynhwysfawr ac yn mynegi eu hunain yn rhugl ac yn gywir. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn fodlon cyfrannu atebion ond maent yn aml yn cynnig ymatebion byr i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn sgwrsio yn Saesneg gyda chyfoedion yn ystod tasgau pâr ac nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu hyder wrth siarad Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion hŷn sy'n astudio llenyddiaeth Gymraeg yn darllen testunau estynedig yn fedrus. Maent yn anodi nofelau yn gywir ac yn ystyried dewis yr awdur o eirfa a nodweddion arddull yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn dros gyfnod. Maent yn cynhyrchu darnau estynedig rhugl a chydlynus ag annibyniaeth gynyddol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud digon o gynnydd yng nghywirdeb eu hysgrifennu.

## Medrau Ehangach

O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu medrau ehangach yn addas. Mewn gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda pan fyddant yn ystyried pam roedd unigolion yn dramgwyddwyr neu'n wylwyr wrth i Iddewon gael eu cam-drin yn Yr Almaen Natsïaidd. Ym mhynciau'r celfyddydau a dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn dangos creadigrwydd trwy gynhyrchu syniadau gwreiddiol o symbyliadau a phrofi eu heffeithiolrwydd yn hyderus. Mewn gwersi addysg gorfforol, mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn weithgar mewn gemau tîm ac yn dangos cydsymud cadarn rhwng y llaw a'r llygad, er enghraifft wrth ymarfer technegau pasio uchel mewn pêl-fasged.

## Chweched Dosbarth

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ymgymryd yn dda â'u hastudiaethau ac yn dangos diddordeb clir yn eu pynciau dewisol. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth, yn cydweithio'n effeithiol â chyfoedion ac yn mynegi eu hunain yn hyderus, gan ddefnyddio ystod eang o derminoleg sy'n benodol i bwnc a geirfa gyfoethog. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau bach, ac yn datblygu eu syniadau'n ystyriol. Mae ychydig ohonynt yn hynod chwilfrydig ac yn gweithio'n dda yn annibynnol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o themâu cymhleth.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, medrau a lles disgyblion i'w paratoi i fod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrifol. Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol ac yn dechrau mireinio addysgu a phrofiadau dysgu, gan ddefnyddio canfyddiadau o lais y disgybl, gweithgarwch sicrhau ansawdd ac ystod addas o ddata. Mae 'mapiau taith ddysgu' clir a defnyddiol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o ddilyniant. Mae arweinwyr yn dechrau nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn eu meysydd pwnc. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r ardal leol trwy brofiadau dysgu priodol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o opsiynau TGAU i ddisgyblion ddewis o'u plith ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Cynigir cyfle i ddisgyblion astudio Mandarin, a chaiff disgyblion amlieithog eu cefnogi'n dda i gwblhau cymwysterau, lle maent ar gael, yn eu mam-ieithoedd. Mae arweinwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda darparwyr allanol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion astudio ystod addas o bynciau galwedigaethol, fel amaethyddiaeth neu wallt a harddwch. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, wedi eu cefnogi gan gydweithio buddiol â sefydliadau partner. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cael arweiniad a chymorth cryf ar eu camau nesaf ac yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau arwain. Mae'r ysgol yn darparu trefniadau cwricwlwm amgen addas, yn cynnwys darpariaeth deilwredig a chyfleoedd dysgu estynedig yn gysylltiedig â gwaith, ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei angen.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithio'n gyson i ehangu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. O ganlyniad, bu cynnydd sefydlog yn nifer y disgyblion sy'n ennill cymwysterau mewn Cymraeg iaith gyntaf a llenyddiaeth Gymraeg. Mae cynllunio strategol ar gyfer datblygu darpariaeth Gymraeg, yn cynnwys cynyddu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm cyfan, yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu.

Caiff addysg bersonol a chymdeithasol ei chynllunio'n gydlynus ar draws grwpiau blwyddyn ac mae'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o les, perthnasoedd iach ac

amrywiaeth. Mae darpariaeth i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws yr ysgol yn gryfder. Ceir cyfleoedd addas i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau ac amser tiwtorial. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi, fel y clwb ‘Sgriblwyr’, ymweliadau â Glan Llyn a digwyddiadau diwylliannol. Mae’r rhain yn cyfrannu’n gadarnhaol at ymgysylltiad a datblygiad personol ehangach disgyblion. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd hyn ac yn cydnabod eu cyfraniad at fywyd yr ysgol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Friars wedi ymrwymo’n gryf i ddarparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae’r tîm bugeiliol yn cydweithio i hyrwyddo lles disgyblion ac yn cefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol. Maent yn meithrin a chynnal perthnasoedd cefnogol â disgyblion ac yn ymateb yn gyflym i’w hanghenion. Mae’r ysgol yn gweithio’n dda mewn partneriaeth ag ystod o ddarparwyr a sefydliadau allanol i ddarparu ystod werthfawr o gymorth arbenigol. Mae datblygiadau diweddar, fel yr ‘Hwb Dysgu’, ‘Hafan’ a ‘Harbwr’, yn darparu mannau diogel ac anogol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu neu’u lles. Mae’r ‘Ganolfan Les’ yn nodedig gan ei bod yn darparu gofod tawel a difyr y tu allan i brif adeilad yr ysgol lle mae asiantaethau allanol ac arbenigwyr iechyd yn cynnal ymyriadau therapiwtig a sesiynau cymorth ar gyfer disgyblion.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi cyflwyno polisi ymddygiad newydd sy’n darparu ymateb graddedig clir i staff ar gyfer delio ag achosion o ymddygiad gwael. Mae hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio ar reoli unrhyw faterion ac ymateb iddynt, ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol, os oes angen. Fodd bynnag, mae amrywioldeb o ran sut mae staff yn cymhwyso’r polisi, yn cynnwys cysondeb wrth ddyfarnu pwyntiau cadarnhaol. Mae’r tîm bugeiliol yn monitro data i nodi tueddiadau yn ymddygiad disgyblion unigol a nodi unrhyw gamau sydd eu hangen. Mae’r ysgol yn annog ymgysylltiad rhieni gan ddefnyddio platfform digidol i rannu gwybodaeth bwysig, yn cynnwys gwybodaeth am ymddygiad ac agweddau disgyblion. Mae sesiynau galw i mewn misol ar gyfer rhieni mewn lleoliad lleol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i drafod unrhyw bryderon. O ganlyniad i’r cynnydd mewn darpariaethau i gefnogi lles a dysgu er mis Medi 2025, bu gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i ystyried llais y disgybl wrth wneud penderfyniadau strategol a gweithredol. Erbyn hyn, maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion gyfrannu eu barn am fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion wedi cael dylanwad ar rai agweddau ar y cwricwlwm a chynyddu ystod y gweithgareddau allgyrsiol. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ymgymryd â rolau arwain. Er enghraifft, mae disgyblion y chweched dosbarth yn trefnu digwyddiadau elusennol ac yn gweithredu fel mentoriaid cyfoedion i ddisgyblion iau. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cyfoethogi y tu allan i’r ystafell ddosbarth, yn cynnwys

y ‘Buzz Club’, côr yr ysgol a Band Jazz, tripiau i’r theatr a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Mae’r tîm anghenion dysgu ychwanegol wedi ymrwymo i ddatblygiad a chynnydd disgyblion sy’n profi rhwystrau i’w dysgu. Mae’r tîm yn darparu hyfforddiant defnyddiol i bob un o’r staff am amrywiol anghenion dysgu a strategaethau i gefnogi disgyblion yn ystod gwersi. Mae cynlluniau datblygu unigol (CDUau) disgyblion yn ddogfennau defnyddiol sy’n amlinellu’n glir eu hanghenion a’r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae’r tîm ADY wedi mabwysiadu dull sy’n canolbwyntio ar y plentyn mewn adolygiadau ac yn rhoi diweddariadau amserol i staff, yn cynnwys unrhyw newidiadau i ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon da wrth gynllunio gwersi. Mae’r tîm ADY yn darparu ymyriadau llythrennedd, rhifedd a lles buddiol ar gyfer disgyblion unigol sy’n cael eu monitro’n addas. Mae’r ysgol yn cynorthwyo disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn briodol. Ceir trefniadau pontio addas, at ei gilydd, i helpu disgyblion ag ADY cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol a’u paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio’n gryf ar gryfhau trefniadau a diwylliant diogelu’r ysgol. Mae llywodraethwyr wedi mabwysiadu polisi diogelu’r awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd, ac mae’r ddogfen statudol hon yn glir a chynhwysfawr. Ceir trefniadau staffio ac arwain cadarn i weithredu cyfrifoldebau’r ysgol i ddiogelu ac amddiffyn plant, yn cynnwys llywodraethwr diogelu dynodedig a dirprwy lywodraethwr diogelu. Cynhelir cyfarfodydd rhwng y llywodraethwr diogelu a’r arweinydd diogelu dynodedig yn rheolaidd sy’n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth, trafodaethau ar ansawdd y ddarpariaeth a’r diwylliant diogelu. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn llunio adroddiadau diogelu cynhwysfawr sy’n cael eu trafod ym mhob un o gyfarfodydd llawn y corff llywodraethol. Mae trefniadau recriwtio mwy diogel yn briodol. Mae safle’r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei reoli’n dda, ac mae prosesau i gau’r ysgol ar frys yn glir ac addas.

Rhoddir blaenoriaeth allweddol i ddiogelu ac mae’n eitem sefydlog ar bob agenda cyfarfod rheolwyr ar bob lefel. Mae arweinwyr a’r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu darparu set gynhwysfawr o hyfforddiant statudol a hyfforddiant perthnasol arall ar gyfer staff. Mae ffocws parhaus ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar ystod o faterion diogelu. Mae’r ysgol yn cynnal cyfathrebu rheolaidd a chynhyrchiol ag ystod eang o bartneriaid a darparwyr hyfforddiant arbenigol, ochr yn ochr ag uwch swyddogion yr awdurdod lleol, i sicrhau ymateb cyflym i unrhyw bryder sy’n dod i’r amlwg. Mae staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel, ac mae pob un o’r uwch arweinwyr a’r swyddogion perthnasol eraill wedi eu hyfforddi mewn protocolau amddiffyn plant.

Mae’r ysgol yn defnyddio platfform digidol fel bod staff yn gallu cofnodi unrhyw bryderon, ac maent yn ei ddefnyddio’n addas. Mae staff diogelu yn monitro’r wybodaeth o fewn y

platfform yn dda ac yn rhannu gwybodaeth yn gyflym ac yn synhwyrol, lle mae angen. Mae trefniadau diogelu ar gyfer disgyblion sy'n destun cynllun cymorth bugeiliol (CCB) a'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dilyn amserlen wedi'i chwtogi yn gadarn.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn datblygu'n addas. Ceir trefniadau priodol i ddisgyblion ddysgu am fyw yn iach a pherthnasoedd trwy'r cwricwlwm ac mewn gwasanaethau, cyfnodau tiwtor a chyflwyniadau a pherfformiadau gan sefydliadau allanol. Mae staff yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd am y cymorth sydd ar gael iddynt, yn eu hannog i nodi oedolion sydd ar gael yn emosiynol ac yn hyrwyddo pedwar gwerth craidd yr ysgol yn rheolaidd (Bod yn barod, yn barchus, yn wydn ac yn gyfrifol).

Rhwng 2022-2023 a 2024-2025, gostyngodd presenoldeb ac mae islaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Parhaodd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ddisgyn yn 2024-2025, ac mae islaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae cyfradd yr absenoldebau parhaus wedi cynyddu er 2023 ac mae'n uwch na'r gyfradd mewn ysgolion tebyg. Er bod yr ysgol wedi cyflwyno strategaeth bresenoldeb yn ddiweddar, nid oes ganddi ddull systematig a strategol i fynd i'r afael â phresenoldeb isel. Mae diffyg trylwyredd yn y dadansoddiad presennol o ddata presenoldeb ac nid yw'n nodi'n ddigon clir beth yw'r rhesymau am absenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i gynllunio camau gweithredu i wella presenoldeb ysgol gyfan, yn cynnwys presenoldeb grwpiau o ddisgyblion.

## Arwain a gwella

Cyn penodi'r pennaeth newydd, profodd yr ysgol gyfnod heriol. Yn ystod y cyfnod hwn, dangosodd staff wydnwch nodedig a buont yn cynnal darpariaeth o ddydd i ddydd er gwaethaf ansicrwydd a newidiadau mewn arweinyddiaeth.

Ers ei phenodi ym mis Ebrill 2025, mae'r pennaeth wedi darparu arweinyddiaeth gref a thosturiol. Mae hi wedi sefydlu cyfeiriad moesol clir yn canolbwyntio ar gynhwysiant, safonau uchel ac ailadeiladu ymddiriedaeth ymhlith staff a disgyblion. Mae hi wedi cymryd camau pendant i ailstrwythuro ac adeiladu'r uwch dîm arweinyddiaeth, gan sefydlu ffyrdd mwy cydlynus a chydweithredol o weithio. Trwy weithio'n agos â'r tîm hwn sydd wedi'i ailstrwythuro, mae'r pennaeth wedi arwain rhaglen o newid cyflym sydd wedi'i ystyried yn dda. Mae wedi cryfhau cyfathrebu â staff, llywodraethwyr a rhieni. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth yn gynyddol gydlynol a thryloyw, gan sicrhau mwy o gysondeb a meithrin diwylliant mwy agored a myfyriol. Yn gyffredinol, mae staff wedi ymateb yn gadarnhaol i'r eglurder a'r sefydlogrwydd hyn ynghyd ac yn rhannu'r ymdeimlad o bwrpas o fewn yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr wedi ailsefydlu prosesau hunanwerthuso yn llwyddiannus, ac mae'r rhain bellach yn gadarn. Mae arsylwadau gwersi ar y cyd, adolygiadau cyfadrannau a

chrynodebau ysgol gyfan bellach yn darparu tystiolaeth uniongyrchol reolaidd a dibynadwy ar gyfer arweinwyr. Mae blaenoriaethau gwella yn briodol, ar y cyfan, ac wedi'u seilio ar y gwerthusiadau hyn. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda ac mewn modd amserol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg trwy fireinio cynlluniau gwella.

Mae arweinwyr wedi ymateb yn briodol i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol. Maent wedi blaenoriaethu gwella addysgu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu ei hymagwedd at arweinyddiaeth medrau, er mai megis dechrau y mae'r gwaith hwn. Er bod arweinwyr wedi cryfhau eu hymagwedd at sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol, mae hyn yn parhau yn faes i'w ddatblygu. Nid yw camau i wella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a bechgyn, wedi cael effaith ddigonol.

Mae arweinwyr canol yn frwdfrydig am eu gwaith. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o staff o fewn eu meysydd ac maent yn arwain eu timau'n dda. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n gadarnhaol am y newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain ac maent yn cymryd rhan yn gynyddol mewn llunio datblygiadau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae gan lawer o arweinwyr y cwricwlwm ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda ac yn cynnwys camau addas. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith fesuradwy.

Mae trefniadau rheolaeth llinell yn gadarn. Maent yn rheolaidd, yn strwythuredig ac yn bwrpasol, gydag agendâu clir a chamau gweithredu dilynol priodol cytûn. Mae cyfarfodydd yn darparu cydbwysedd addas o her a chymorth ar gyfer adrannau ac yn dechrau cryfhau atebolrwydd a deialog broffesiynol. Mae cyfarfodydd cyfadrannau ac adrannol yn drefnus, ar y cyfan, ac yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys addysgu, ymddygiad, diogelu ac anghenion disgyblion unigol. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr yn mynd i'r afael â chamau gweithredu dilynol yn systematig.

Mae trefniadau adolygu datblygiad perfformiad wedi cael eu mireinio'n addas a'u halinio'n briodol i rolau a chyfrifoldebau staff. Mae anghenion hyfforddi yn cael eu nodi'n glir ac yn llywio dysgu proffesiynol ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Fodd bynnag, mae diffyg meini prawf llwyddiant sy'n ddigon manwl gywir a mesuradwy i leiafrif o amcanion, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i werthuso effaith.

Mae dysgu proffesiynol yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau ysgol gyfan a chanfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd, yn enwedig o ran agweddau ar addysgu, asesu a datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae arweinwyr yn ymateb yn ystyriol i dystiolaeth wrth lunio dysgu proffesiynol, ac mae staff yn elwa ar ystod o gyfleoedd datblygu

gwerthfawr. Mae cymorth wedi'i dargedu ar gyfer arweinwyr canol y cwricwlwm wedi cael effaith nodedig ar eu gallu i werthuso addysgu, dysgu a darpariaeth. Mae arweinwyr yn dechrau gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar arfer ystafell ddosbarth a deilliannau disgyblion.

Er bod y corff llywodraethol yn gymharol newydd, mae'n ymroddgar ac yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi cryfhau tryloywder trwy gyfathrebu clir ac agored, yn enwedig o ran lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o ansawdd addysgu, gweithredu'r cwricwlwm a phrosesau hunanwerthuso'r ysgol, er bod hyn mewn cyfnod datblygol o hyd.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol yr ysgol ac mae trefniadau monitro yn rheolaidd, yn dryloyw ac yn drefnus. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau gwella, yn cynnwys sefydlogrwydd staffio a darpariaeth estynedig ar gyfer disgyblion bregus. Mae strategaeth y grant datblygu disgyblion yn glir ac wedi'i thargedu'n addas at y disgyblion hynny sydd ei hangen fwyaf. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y gwariant hwn yn ddigon manwl.

Mae arweinyddiaeth ar gyfer diogelu yn gadarn. Mae trefniadau wedi eu strwythuro'n dda, yn cydymffurfio ac yn cael eu monitro'n systematig. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau statudol ac yn cynnal goruchwyliaeth briodol o arferion diogelu.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol cryf ac yn rhoi mesurau ymarferol ar waith i leihau effaith tlodi ar les a dysgu disgyblion, fel cymorth â gwisg ysgol, darpariaeth bwyd a chyfleoedd ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae cydweithio aml-asiantaethol yn cryfhau cymorth ar gyfer teuluoedd sydd fwyaf mewn angen, ac mae buddsoddiad mewn darpariaeth fugeiliol, dulliau sy'n ystyriol o drawma a llwybrau galwedigaethol yn dangos ymrwymiad yr ysgol i gynhwysiant.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/04/2026